



YN Y GEGIN

## Hufen iâ crymbl afal

### Cynhwysion:

- 2 lwy fwrdd o fenyn
- 4 afal Granny Smith (heb y canol ac wedi'u torri'n fach)
- 1 llwy de o sinamon mâl
- 2 lwy fwrdd o siwgr brown golau
- 8 llwy fawr o hufen iâ fanila
- 2 fisged sinsir (wedi'u malu'n fân)

### Byddwch hefyd angen:

- Sosban fach

# YN Y GEGIN - Hufen iâ crymbl afal

## Dull:

- Rhowch y menyn mewn sosban fechan a'i doddi dros wres isel
- Ychwanegwch y siwgr, afalau a sinamon a'u coginio am tua 10 munud nes bod yr afalau yn feddal ond yn dal eu siâp
- Rhannwch y gymysgedd rhwng pedair powlen ac ychwanegwch ddwy lwyaid fawr o hufen iâ i bob bowlen
- Malwch y bisgedi a'u gwasgaru ar ben yr hufen iâ, yna mwynhewch

## AWGRYM

### GWYCH:

Nid yw pob afal yn coginio'n dda. Ewch ar-lein i weld pa fathau sy'n 'afalau coginio'

